

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Mai 2022

Annwyl Russell

Heddiw, yr wyf wedi gwneud datganiad ysgrifenedig i'r cabinet sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd am y gwaith o sefydlu Gweithrediaeth y GIG i Gymru. Gwn y bydd y mater hwn o ddiddordeb i'ch pwyllgor, felly yr oeddwn eisiau ysgrifennu i nodi sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae sefydlu Gweithrediaeth y GIG yn rhan hanfodol o sicrhau bod ein system iechyd yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd yn sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch y gofal, yn ogystal â sicrhau cysondeb a thegwch wrth weithredu safonau clinigol ar draws y GIG.

Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd y penderfyniad i sefydlu swyddogaeth weithredol yn *Cymru Iachach* yn 2018, a chafodd y penderfyniad ei ailgadarnhau yn y Rhaglen Lywodraethu. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau ac argymhellion Adolygiad Ansawdd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r Adolygiad Seneddol o ddyfodol hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd yn 2018. Galwodd y ddau adolygiad am 'graidd' cryfach, gallu ychwanegol o ran trawsnewid, ac am symleiddio'r strwythurau presennol.

Cafodd gwaith ar sefydlu Gweithrediaeth y GIG ei ohirio yn gynnar yn 2020 i ganolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, mae hyn wedi caniatáu inni wneud gwaith pellach i sicrhau fod yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig yn cael ei gynnwys mewn cynigion. Gan adeiladu ar hyn, mae Gweinidogion wedi penderfynu sefydlu Gweithrediaeth y GIG ar ffurf model hybrid, yn hytrach na chorff annibynnol ar hyn o bryd. Bydd yn cynnwys uwch dîm bach a chryfach o fewn Llywodraeth Cymru, wedi'i atgyfnerthu a'i ategu drwy ddwyn ynghyd arbenigedd a gallu presennol cyrff cenedlaethol o fewn y GIG, a fydd yn gweithredu o dan fandad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Swyddogaeth a diben

Prif ddiben Gweithrediaeth y GIG fydd sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch y gofal - gan arwain at ganlyniadau gwell a thecach, gwell mynediad a phrofiad cleifion, llai o amrywiadau, a gwelliannau yn iechyd y boblogaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan weithio ar ran Llywodraeth Cymru, bydd Gweithrediaeth y GIG yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol cryf – gan alluogi, cefnogi a chyfarwyddo'r GIG yng Nghymru i drawsnewid gwasanaethau clinigol yn unol â blaenoriaethau a safonau cenedlaethol drwy:

- Gryfhau arweinyddiaeth a chymorth cenedlaethol ar gyfer gwella ansawdd;
- Darparu cyfarwyddyd mwy canolog i sicrhau dull cyson a theg o gynllunio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol ar sail canlyniadau;
- Galluogi trefniadau rheoli perfformiad cryfach, gan gynnwys y gallu i herio a chynorthwyo sefydliadau nad ydynt yn gweithredu yn ôl y disgwyl.

Swyddogaethau

Dyma'r swyddogaethau lefel uchel a gynigir ar gyfer Gweithrediaeth y GIG:

Atgyfnerthu ac ail-ganolbwyntio arweinyddiaeth genedlaethol i wella ansawdd a thrawsnewid, gan gynnwys:

- Datblygu deilliannau a dangosyddion ansawdd;
- Sbarduno'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a rhaglenni gwaith cenedlaethol eraill;
- Datblygu mecanweithiau pwrpasol ar gyfer y system er mwyn dysgu o lwyddiant trawsnewidiol a rhannu arferion gorau – gyda mwy o ddisgwyliad o gydymffurfio ar draws y system.

Cynllunio

- Y gallu i gynllunio yn genedlaethol a rhanbarthol a chefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau cenedlaethol ochr yn ochr â darparu yn rhanbarthol ac yn lleol.
- Datblygu Fframwaith Cynllunio GIG Cymru
- Cefnogi a herio datblygiad cynllun tymor canolog integredig lleol
- Trefniadau cynllunio rhag argyfwng y GIG
- Dylunio a chyflwyno Rhaglen Gynllunio ar gyfer Dysgu GIG Cymru i wella capasiti a gallu cynllunio ar draws Cymru

Galluogi trefniadau cryfach ar gyfer rheoli perfformiad a chefnogi gwella ansawdd

- Meithrin capasiti a gallu ychwanegol medrus iawn i gefnogi sefydliadau sydd mewn perygl o gael eu huwchgyfeirio, neu wedi'u huwchgyfeirio, y gellir eu rhoi ar waith yn hyblyg ar draws Cymru.
- Trefnu ac arwain sgysiau rheoli perfformiad a chyflenwi gyda holl gyrff y GIG
- Arwain trefniadau uwchgyfeirio a chefnogi

Creu Gweithrediaeth y GIG

Bydd Gweithrediaeth y GIG yn dwyn ynghyd ac yn addasu at ddibenion gwahanol - lle bo angen - y capasiti cenedlaethol presennol mewn un strwythur cyflawni ac atebolrwydd, gan weithredu yn ôl mandad y cytunwyd arno gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd gallu'r system bresennol yn cael ei ddwyn ynghyd mewn modd rhithwir gan darfu cyn lleied â phosibl ar staff. Edrychir ar logisteg hyn fel rhan o'r rhaglen weithredu a fydd yn cael ei datblygu yn awr, a thrwy feithrin cysylltiadau â staff.

Yn y lle cyntaf, bydd y cyrff cenedlaethol a fydd yn dod ynghyd yn rhithwir o dan faner Gweithrediaeth y GIG yn cynnwys:

- Yr Uned Cyflenwi Cyllid;
- Yr Uned Cyflenwi Perfformiad;
- Gwelliant Cymru;

- Cydweithfa'r GIG, gan gynnwys cyfarwyddwyr rhaglenni cenedlaethol allweddol, rhwydweithiau clinigol a rhaglenni gweithredu cenedlaethol.

Yn ogystal â:

- Gallu ychwanegol i werthuso a chefnogi'r defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r gweithlu;
- Mwy o allu ac arbenigedd i alluogi cymorth carlam ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u huwchgyfeirio; a
- Gallu ac arbenigedd trawsnewid a chynllunio canolog.

O dan y trefniadau newydd hyn, ni fydd y dulliau atebolrwydd statudol yn newid. Mae holl sefydliadau'r GIG eisoes yn uniongyrchol atebol i Weinidogion, ac i Lywodraeth Cymru, a bydd hynny'n parhau. Bydd Gweinidogion hefyd yn parhau i bennu blaenoriaethau, targedau a mesurau canlyniadau ar gyfer y GIG, a fydd yn cyfrannu at y mandad ar gyfer Gweithrediaeth y GIG a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ehangach. Fodd bynnag, bydd Gweithrediaeth y GIG yn darparu gallu ychwanegol ar lefel genedlaethol i oruchwylio a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Rhaglen weithredu a phontio

O fewn Llywodraeth Cymru, mae camau'n cael eu cymryd i sefydlu rhaglen weithredu ffurfiol y bydd Judith Paget yn ei chadeirio. Bydd hyn yn goruchwylio'r gwaith o sefydlu Gweithrediaeth y GIG a'r gwaith manwl a fydd yn dechrau yn awr. Y nod yw gwneud cynnydd sylweddol o ran sut y bydd Gweithrediaeth y GIG yn gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Bydd barn staff Llywodraeth Cymru a staff cyrff cenedlaethol y GIG a fydd yn rhan o Weithrediaeth y GIG, yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach, yn arbennig o bwysig i gyflawni'r gwaith hwn yn llwyddiannus. Bydd y rhaglen weithredu yn cynnwys meithrin cysylltiadau â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y GIG, arweinwyr cyrff cenedlaethol y GIG, staff Llywodraeth Cymru a'r GIG, a rhanddeiliaid ehangach i helpu i lywio'r hyn y bydd Gweithrediaeth y GIG yn ei wneud a sut y bydd yn gweithredu.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y datblygiadau o ran sefydlu Gweithrediaeth y GIG a byddwn yn hapus i drafod ymhellach os hoffech wneud hynny.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Yr wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu Gweithrediaeth y GIG i Gymru
DYDDIAD	18 Mai 2022
GAN	Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ein cynlluniau i sefydlu Gweithrediaeth y GIG i sicrhau gwelliannau o ran ansawdd a diogelwch gofal ledled Cymru.

Amlinellwyd y penderfyniad i sefydlu swyddogaeth weithredol genedlaethol yn *Cymru Iachach* yn 2018, a chafodd ei ailgadarnhau yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r penderfyniad yn seiliedig ar ganfyddiadau ac argymhellion Adolygiad Ansawdd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Galwodd y ddau adolygiad hyn am 'graidd' cryfach, gallu ychwanegol o ran trawsnewid, ac am symleiddio'r strwythurau presennol.

Cafodd y gwaith ar sefydlu Gweithrediaeth y GIG ei ohirio yn 2020 i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig. Wrth inni symud y tu hwnt i'r ymateb brys i'r pandemig, gallwn sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig yn cael ei gynnwys yn natblygiad Gweithrediaeth y GIG.

Rwyf wedi penderfynu sefydlu Gweithrediaeth y GIG ar ffurf model hybrid, yn hytrach na sefydliad annibynnol. Bydd yn cynnwys uwch dîm bach a chryfach o fewn Llywodraeth Cymru, wedi'i atgyfnerthu a'i ategu drwy ddwyn ynghyd arbenigedd a chapasiti presennol cyrff cenedlaethol yn y GIG, a fydd yn gweithredu o dan fandad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Mae sefydlu Gweithrediaeth y GIG yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau bod ein system iechyd yn addas ar gyfer y dyfodol. Ei diben canolog fydd cynorthwyo'r GIG i ddarparu gofal o ansawdd gwell i bobl ledled Cymru - gan arwain at ganlyniadau, mynediad a phrofiad gwell a thecach i gleifion, llai o amrywiad, a gwelliannau o ran iechyd y boblogaeth.

Bydd Gweithrediaeth y GIG yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol cryf – gan alluogi, cefnogi a chyfarwyddo'r GIG yng Nghymru i drawsnewid gwasanaethau clinigol yn unol â blaenoriaethau a safonau cenedlaethol drwy:

- Gryfhau arweinyddiaeth a chymorth cenedlaethol ar gyfer gwella ansawdd;
- Darparu cyfarwyddyd mwy canolog i sicrhau dull cyson a theg o gynllunio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol ar sail canlyniadau;
- Galluogi trefniadau rheoli perfformiad cryfach, gan gynnwys y gallu i herio a chynorthwyo sefydliadau nad ydynt yn gweithredu yn ôl y disgwyl.

Bydd yn dwyn ynghyd y capasiti cenedlaethol presennol mewn un strwythur cyflawni ac atebolrwydd, gan weithredu yn ôl mandad y cytunwyd arno gan Weinidogion.

O dan y trefniadau newydd hyn, ni fydd dulliau statudol o ran atebolrwydd yn newid. Mae holl sefydliadau'r GIG eisoes yn atebol i Weinidogion a Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, a bydd hynny'n parhau. Byddaf yn parhau i bennu blaenoriaethau, targedau a dulliau o fesur canlyniadau ar gyfer y GIG, a fydd yn cyfrannu at y mandad i Weithrediaeth y GIG ei gyflawni gyda'r GIG ehangach.

Bydd Gweithrediaeth y GIG yn darparu capasiti ychwanegol ar lefel genedlaethol i oruchwyllo a chynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Bydd rhaglen weithredu i fwrw ymlaen â'r gwaith manwl ynghylch sut y bydd Gweithrediaeth y GIG yn gweithredu yn cael ei sefydlu . Arweinir hyn gan Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r rhaglen hon, bydd ymgysylltu trylwyr â chadeiryddion a phrif weithredwyr y GIG, arweinwyr cyrff cenedlaethol, staff y GIG a Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid ehangach.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau eto wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.